

## **Cyngor Cymuned Ganllwyd**

**Ebrill 9fed 2025**

### **Presennol**

Cyng D.Morris, S.Roberts,G.Jones,C.Dixon,D.Griffiths a S.Jones.

### **Ymddiheuriadau**

Dim

### **Pcso Gareth Jones.**

Croesawodd y cyngor SCCH Jones a diolchodd iddo am fynychu'r cyfarfod.

Darparodd SCCH Jones grynodedb o'r digwyddiadau yn ardal Ganllwyd yn ystod y 6 mis diwethaf.

Cafwyd 17 o ddigwyddiadau yn bennaf yn cynnwys damweiniau ffyrdd a digwyddiadau moduro.

Ymgysylltu â chymunedau- Mae Heddlu Gogledd Cymru yn darparu cyfleuster hysbysu cymunedol ar eu gwefan lle gall unigolyn adael cyfeiriad e-bost a fydd yn arwain at iddynt gael eu hysbysu am ddigwyddiadau yn eu cymuned.

Cynllun Haf 2025 - Bydd yr Heddlu yn darparu gwahoddiad i bob cyngor i drafod cynllun plismona a fydd yn rhoi ffocws ar blismona lleol dros fisoedd prysurach yr Haf. Bydd manylion y cynllun yn cael eu datgelu ar ôl i drafodaethau gael eu cynnal.

Anogodd SCCH Jones aelodau o'r cyhoedd i gysylltu a'r Heddlu cyn gynted ag y cyfle os oedd problem neu ddigwyddiad yn y gymuned.

### **Cofnodion Mawrth 2025**

Cynnigodd Cyng G.Jones fod y cofnodion yn gywir a eiliwyd gan

Cyng D.Morris

**Datgan diddordeb mewn unrhyw fater a drafodir yn ystod y cyfarfod.**

Dim.

**Materion yn codi.**

Ffordd Cefndeuddwr-Bydd gwaith ar y ffordd yn cychwyn diwedd Ebrill.

Gwefan Neuadd y Pentref- mae swyddogion neuadd y pentref wedi penderfynnu gosod rhyngwyd yn neuadd y pentref yn yr wythnosau nesaf. Cymeradwyodd y cyngor y penderfyniad hwn gan y bydd yn ei gwneud hi'n haws i'r cyhoedd gael mynediad at gyfarfodydd y cyngor.

Ffordd Gelligemlyn- Nid yw'r cyngor wedi cynnal gwaith yn yr ardal.

Maes parcio ardal Dolfrwynnog- Nid oedd y cyngor yn fodlon ag ymateb Mr Dylan Williams (CNC) mewn perthynas â chyflwr y maes parcio a'r arwyddion yn y lleoliad hwn. Gofynnodd y cyngor i'r clerwr gysylltu ymhellach â CNC gyda eu pryderon.

**Caru Coed y Brenin.**

Cadarnhawyd bod y cyfleusterau arlwygo a'r siopau yn y lleoliad wedi bod ar gau ar 31eg Mawrth. Nid oes unrhyw wybodaeth yn ymwneud â dyfodol y staff yn yGganolfan.

**Adolygiadau Ffiniau Cymunedol.**

Wrth adolygu dogfennau sy'n ymwneud â'r mater hwn, daeth yn amlwg bod cynlluniau yn ddjarwybod i aelodau Cyngor Cymuned Ganllwyd i gyfuno'r cyngor â'n cymdogion Cyngor Cymuned Llanelltyd. Pleidleisiodd aelodau'r cyngor cymuned yn unfrydol i wrthwynebu uno o'r fath a gofynnodd am gysylltu ag awdur yr adroddiad, Mr Huw Elfed Roberts o Gyngor Gwynedd, a siarad ag ef ynglŷn â'r cynllun hwn. Y clerwr i gysylltu â Mr Roberts yn gofyn y cwestiynau priodol am y cynnig a gwahoddiad i gwrdd â'r cyngor.

**Cyngorydd Sir.**

Eglurodd y Cyngorydd Griffiths fod Cyngor Gwynedd wedi derbyn torriad o £8.1m yn eu cyllideb ar gyfer blwyddyn ariannol 25/26 ac mae torriad o'r fath wedi arwain at gynnydd yn y dreth cyngor a gall effeithio ar rai gwasanaethau a ddarperir gan Gyngor Gwynedd.

Cais cynllunio NP5/60/L29E yn ymwneud â'r hen ysgol gynradd, Ganllwyd. Dywedodd y clerwr wrth y cyngor ei fod wedi cyflwyno gwrthwynebiad i'r SNP ar ran y cyngor mewn perthynas â'r cais hwn. Mae'r Cyngorydd Griffiths wedi

siarad â'r awdurdod cynllunio ac mae'n ymddangos yn annhebygol na fydd y cais yn mynd ymlaen i gynllunio.

**Materion ariannol.**

Cyson Banc: Mawrth 2025

Yn y Banc ar ddechrau'r Mis: £3977.55

Derbyniwyd:

Dim

Taliadau:

Cyflog/Paye £100.00

Treuliau banc £5.00

Aelodaeth Un Llais Cymru £37.00

Batteries diffibrilydd £66.00

Awdit Cymru £260.00

Cynnal a chadw'r gwefan £233.88

Yn y banc diwedd mis £3274.67

Mae aelodau'r cyngor wedi archwilio manylion y gwariant misol a chytuno bod y gwariant wedi'i gynnal yn unol â chynlluniau'r gyllideb. Nid oedd y gwariant yn torri asesiad risg ariannol y cyngor.

Taliadau: E.W.Owen £228.00

Ffermwyr ifanc £50.00

Capel Libanus £100.00

Neuadd y pentref £250.00

Rodd M.Ward £250.00